
National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Crwydro Cwm Ivy

Bachwch eich binocwlars a ffwrdd â chi i ddarganfod y forfa heli newydd hon sy'n fwrlwm o fywyd gwyllt. Mae'r llwybr yn pasio dwy guddfan adar ac mae digon o gyfleoedd yma i wylio bywyd gwyllt. Cadwch olwg am ddyfrgwn, glas y dorlan a rhydwyr.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Maes parcio Cwm Ivy (SA3 1DJ)

Map AO: SS441933

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr yn gymharol fflat, gyda rhai darnau serth byr. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Mae croeso i gŵn (ar dennyn, gan fod anifeiliaid).

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1.5 (km: 2.4)

Hyd: 1 awr 30 munud

## Tirwedd

Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr yn gymharol fflat, ar hyd lonydd cul, traciau a llwybrau troed, gyda rhai darnau serth byr. Gallai rhai darnau o'r llwybr troed fod yn fwdlyd iawn ar ôl tywydd gwlyb.

## Cyfanswm y camau: 8

Man cychwyn: Maes parcio Cwm Ivy (SA3 1DJ). Cyfeirnod grid: SS441933

1. Gan ddechrau o'r maes parcio (preifat) yng Nghwm Ivy, trowch i'r dde i'r ffordd a dilynwch y lôn (cofiwch roi rhywbeth yn y blwch gonestrwydd).
2. Cerddwch drwy'r pentref nes cyrraedd gât yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol â'r arwydd 'Coed Cwm Ivy' arni.
3. Ewch trwy'r gât a dilyn y llwybr i lawr yr allt. Mae'n troi i'r dde ac ar eich chwith mae craig Cwm Ivy.
4. Dilynwch y llwybr wrth iddo wyro i'r dde drwy gât ac i mewn i blanhigfa goed. Byddwch yn pasio Burrows Cottage ar y chwith. Cadwch at y llwybr nes cyrraedd cuddfan adar Monterey ar y dde. Beth am alw i mewn i weld beth welwch chi?
5. O'r fan hon gallwch gario ymlaen at Dwyni Whitffordd neu gerdded yn ôl ar y llwybr at bentref Cwm Ivy a'r maes parcio.
6. Ychydig cyn i chi gyrraedd y gât yn ôl i'r pentref, ewch i'r chwith a dilynwch y llwybr drwy goedwig llydanddail Cwm Ivy (sy'n cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt) nes cyrraedd cuddfan adar Cheriton.
7. Wrth i chi adael y guddfan adar, aildroediwch y llwybr yn ôl drwy'r coetir hynafol.
8. Wrth i chi gyrraedd y pentref, trowch i'r chwith i'r ffordd ac ewch yn ôl i fyny'r allt at y maes parcio.

Man gorffen: Maes parcio Cwm Ivy (SA3 1DJ). Cyfeirnod grid: SS441933